



## **COFNODION AIL GYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL WEA CYMRU**

### **Cynhaliwyd Dydd Sadwrn 25 Ebrill 2015 yng Ngholeg Harlech**

#### **Presennol:**

**Swyddogion** - Rob Humphreys (Cadeirydd), Maggi Dawson (Prif Swyddog Gweithredol), Stephen Thomas (Clerc i'r Cyngor).

**Aelodau Unigol, Staff a Llywodraethwyr** - Vivien Allen, Mark Baines, Paul Beswick, Paul Charlton, Christine Cockroft, Nigel Davies, Viv Davies, Cath Dawkes, Miranda Edwards, David Elis-Williams, Chris Franks, Christina Gallagher, Jeremy Gass, John Graystone, Moelwen Gwyndaf, Cath Hicks, Alison Hill (Is-gadeirydd), Martin Hughes, Geraint Humphreys, Mena Ifans, Mark Jenkins, Gerry Jenson (Is-gadeirydd), June Jeremy, Lynda Jones, Sarah K Jones, Ros McAlister, William David Michael, Annie O'Brien, Jon Parry, Graham Price, Gwyneth Price, Sharon Reader, Anwen Richards, Julie Roberts, Susan Roberts, Toni Schiavone, Nick Taylor, Ann Williams (38).

**Aelodau Unigol a Chynrychiolwyr Canghennau** - Jenni Jones-Annetts a David MacManus (Caerffili), Phil Elias (Llanelli), Huw Williams (Merthyr), Derek Edwards (Uned 10, Port Talbot), Sonia Reynolds (Dyffryn Aman Uchaf) (6).

**Cynrychiolydd Sefydliad Cysylltiedig** - Julie Cook (Wales TUC Cymru).

#### **Ymddiheuriadau:**

Megan Adams, Rufus Adams, Leanne Andreadis, David Ashman, Janet Bailey (cangen Llangynidr), Ifor Baines, Nicola Campbell, Sue Carlick, Cathrine Clark (cangen Coed Duon ac Oakdale), Robert Clarke, Jeremy R G Comerford, Gareth Cork, Deborah Crecraft, Ian Cuthbertson, Terry-Anne Davies (cangen Dysgu Cymunedol Bydeang), Joe England, Michael Gallagher, Nomitha Gallagher, Tracy Garnett, Katrina Gass, Adele Gatt, Jonathan Goddard, Jeff Greenidge, P Griffiths, Diane Grimwood Jones (cangen Llanelli), Elaine Gwynne, Adrian Heathfield, John Hurley, Lynette Hurley, Taha Idris (Cyngor Cydraddoldeb Rhanbarthol Bae Abertawe), Jayne Ireland, Belinda James, Eleanor Jones, Helen Mary Jones, Victoria Knappett, Betty Knight, Rob Larkins, Marilyn Lewis, Matthew Lloyd, Elaine Moore, Gareth Morris, John Morris, Helen Murphy (cangen Caerffili), Sarah Murphy, Mary Newman (cangen Dysgu Cymunedol Bydeang), Tim Owen, Valmai Owen, Heather Pickford, Tracey Powell, Ann Reardon-James, Martyn Reed, Dafydd Rhys, Rebecca Rumbul, Caroline Streek, Marilyn Thomas (cangen Caerffili), Russell Todd, Elaine Topping, Margaret Whitcombe, Heather Wilbourne, Ceri Williams, Huw Williams (cangen Pwllheli/Llŷn), Edward T Winter (62).

Eitem	CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL WEA CYMRU 2015
1.	<p><b>Croeso a Materion Arweiniol</b></p> <p>Croesawodd Rob Humphreys bawb i'r cyfarfod. Gwnaed nifer o gyhoeddiadau cynnal a chadw. Cadarnhawyd bod y cyfarfod wedi ymgynnull yn gywir yn nhermau cyfansoddiadol a roedd â chworwm. Etholwyd Cath Hicks a Mark Baines fel cyfrifwyr ar gyfer y weithdrefn pleidleisio yn y cyfarfod. Cytunwyd i osod Rheol Sefydlog 23 o'r neilltu, gan felly ganiatáu i'r pleidleisio gael ei wneud drwy ddangos papurau pleidleisio yn gyhoeddus, yn hytrach na phleidlais gudd.</p>
2.	<p><b>Cymeradwyo cofnodion y CCB blaenorol</b></p> <p>Ystyriwyd cofnodion drafft y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref Llanelli ar 29 Mawrth 2014. Cawsant eu cymeradwyo (cyn: David MacManus; eil: Graham Price), yn amodol ar gywiro enw <b>George Thomason</b> mewn dau le ynddo, a dileu'r teitl 'AC' o enw William Powell ymysg yr ymddiheuriadau.</p>
3.	<p><b>Diweddariad ar Weithredoedd yn ymwneud â Chynigion a dderbyniwyd yn y CCB 2014</b></p> <p>Bu angen cymryd camau dilyniant gan y sefydliad yn ystod y flwyddyn ar gyfer tri o'r cynigion o gyfarfod Llanelli y llynedd, a darparodd Maggi Dawson ddiweddariadau ar y sefyllfa mewn perthynas â hwy. Ar y cyntaf ohonynt, mewn perthynas â strategaeth ac ymarfer, rhoddodd fanylion ar agweddau o Gynllun Strategol 2014 -17 a siaradodd am benodiad diweddar o Uwch Swyddog Polisi ac Ymchwil rhan-amser i gynorthwyo wrth fesur ein heffaith. Roedd yr ail gynig yn cyfeirio at ddatblygu dealltwriaeth a goddefgarwch o wahaniaeth, a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol: yr enghraifft orau o hynny yn ymarferol oedd ein prosiect ELIS ('Saesneg, Dysgu, Integreiddio, Cymdeithas'). Ar gyfer y trydydd cynig ar rôl addysg oedolion i helpu goresgyn sialensau sy'n wynebu system addysg Cymru, roedd gwaith cydweithredol yn cael ei wneud gydag Agored Cymru, NIACE Cymru a Her Ysgolion Cymru yn dangos yr hyn oedd yn cael ei wneud ar y mater.</p>
4.	<p><b>Cyflwyno Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon WEA Cymru 2013/14</b></p> <p>Esboniodd Jeremy Gass, fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Phwrpasau Cyffredinol, pam fod yr adroddiad a'r cyfriflenni a ddosbarthwyd yn y cyfarfod ar ffurf drafft yn unig. Yn dilyn gwaith paratoadol sylweddol ar y cyfrifon, roedd yr ymchwilwyr allanol wedi cadarnhau bod angen cymhwyso egwyddorion cyfrifo'r uniad er mwyn dadansoddi'r ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Gorffennaf 2014. Roedd hyn yn gofyn am wahanu 17 mis o gyfrifon olaf y cyn Goleg Harlech CAG Gogledd Cymru (CHWEAN), a gwaith ychwanegol sylweddol i'r Tîm Cyllid ac archwilwyr i ddarparu rhaniad 12/5 mis. Tra roedd y ddwy ochr yn teimlo y byddai hyn yn bosib ar gyfer y CCB, nid felly y bu ac roedd amser wedi rhedeg allan. Darllenodd ddatganiad gan Huw Baker, archwilydd gyda Btp Associates</p>

	<p>Ltd., oedd yn ategu trefn y digwyddiadau ac yn rhagweld datrysiaid o'r mater yn y dyfodol agos. Yn hytrach y cynnig nawr oedd cyflwyno set gyflawn o'r cyfrifon archwiledig ar gyfer 2013/14 i Gyfarfod Cyffredinol Arbennig, oedd yn debygol o gael ei gynnal ym mis Gorffennaf.</p> <p>Ymddiheuriodd Mark Baines, fel Cyfarwyddwr Cyllid, am y sefyllfa, ond cadarnhaodd yr ymholiadau a gododd Chris Franks (Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio), sef oedd yr asedau o c£1.9 miliwn yn dangos cynnydd ar sefyllfa gau y flwyddyn flaenorol, a bod cronfeydd arian parod wrth gefn mewn safle gadarn.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i'r Tîm Cyllid am eu gwaith mor belled, o ystyried cymhlethdod y cyfrifon yn ystod blwyddyn yr uniad. Cynigiwyd nodi'r adroddiad a'r cyfrifon drafft a gylchredwyd (cyn: Graham Price; eil: Viv Davies): cymeradwywyd hyn yn unfrydol.</p>
5.	<p><b>Penodi archwilwyr ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15</b></p> <p>Awdurdodwyd yn unfrydol benodi Btp Associates Ltd., Merthyr Tudful fel archwilwyr WEA Cymru ar gyfer 2014/15 gan y CCB (Cyn:Jeremy Gass; eil: David MacManus).</p>
6.	<p><b>Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ar waith y flwyddyn</b></p> <p>Cyflwynodd Maggi Dawson arolwg gweledol a llafar o'r datblygiadau allweddol yn y flwyddyn gyntaf ers yr uniad rhwng sefydliadau CHWEAN a CAG De Cymru oedd ar wahân yn flaenorol. Roedd wedi bod yn gyfnod o atgyfnerthu yn dilyn yr uniad, gyda phwyslais ar bartneriaethau, cryfhau dysgu yn seiliedig ar undebau llafur, a strategaeth ystadau oedd yn dwyn newidiadau i leoliadau swyddfeydd y sefydliad. Roedd yr her o wneud i diwtoriaid deimlo fel rhan integredig o'r sefydliad, er eu statws cyflogaeth rhan amser, yn parhau.</p> <p>Darparwyd ystadegau ar niferoedd dysgwyr a chofrestriadau ac ar lefelau amddifadedd nifer o'r dysgwyr. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol o adolygiad Estyn ac arolwg Llais y Dysgwr. Mewn ymateb i gais y Cadeirydd, roedd cynnydd wedi bod yn y pynciau dyniaethol a gynigir, ond ychydig o leihad yn y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.</p> <p>Yn ystod cwestiynau o'r Llawr, gofynnodd Christine Cockroft sut roedd WEA Cymru yn cyfiawnhau darparu cyrsiau ochr yn ochr â darpariaeth awdurdodau lleol. Atebodd Maggi Dawson nad oedd dyblygu ar y pwynt hwnnw, oherwydd cydweithio a chydnyblyddiaeth o'n gwaith arbenigol o safon uchel gyda chymunedau tlotach. Mynegodd Julie Cook deimladau tebyg o'r Llawr, pan nododd y pontio di-dor pan gymerodd WEA Cymru drosodd yr addysg undeb llafur a ddarparwyd gan Goleg Penybont-ar-Ogwr yn flaenorol. Er oedd heriau yn parhau o'n blaenau, byddai partneriaeth gyda Wales TUC Cymru yn cynorthwyo cydweithio yn y dyfodol.</p> <p>Diolchodd Rob Humphreys i Maggi Dawson a'r staff i gyd am eu gwaith</p>

	caled yn ystod blwyddyn heriol.
7.	<p><b>Rhestr Llywodraethwyr (Cyfarwyddwyr) WEA Cymru yn ystod 2014/15</b></p> <p>Dosbarthwyd rhestr o'r llywodraethwyr a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn ers y CCB yn Llanelli y flwyddyn flaenorol gyda'r papurau ar gyfer y cyfarfod. Nododd Rob Humphreys etholiad dau a phenodiad un llywodraethwr yn ystod y flwyddyn a fu, ynghyd ag ymddiswyddiad dau arall. Diolchodd i'r 19 llywodraethwr cyfredol a'r rhai eraill hynny a wasanaethodd, ynghyd â'r aelodau cyfetholedig ar Bwyllgorau, am eu hymrwymiad i reolaeth y sefydliad yn ystod ei flwyddyn gyntaf lawn o weithredu unedig.</p>
8.	<p><b>Adroddiad y Cadeirydd am y flwyddyn flaenorol</b></p> <p>Dywedodd Rob Humphreys y bu hi'n fraith bod yn ben y Cyngor, gan ei fod yn ymwybodol fod aelodau'r Cyngor yn warcheidwaid traddodiad gwych i'w drosglwyddo i eraill. Roedd y llywodraethwyr yna i gefnogi staff ac i archwilio eu gwaith, ar ran dysgwyr y sefydliad, trethdalwyr a'r cyhoedd yng Nghymru yn gyffredinol, er lles y wlad. Roedd toriadau ariannol yn anochel i'r sefydliad, ond roedd sail ar gyfer optimistaeth am fod ganddo fel corff Cymru gyfan ddylanwad ychwanegol. Roedd yn falch o glywed bod digwyddiadau wedi ymddangos yn ddi-dor i Wales TUC Cymru, oherwydd nid dyna oedd yr argraff wedi bod bob amser oddi fewn. Roedd yna adegau pan gafodd uwch staff eu profi gan y Cyngor neu lywodraethwyr unigol, ar ran yr aelodau a rhanddeiliaid eraill, gan fod yn ymwybodol o'r hyn y byddai canghennau ac aelodau unigol yn dymuno ei weld yn digwydd.</p> <p>Derbyniwyd adroddiad y Cadeirydd yn swyddogol (cynigiwyd: Christine Cockroft; eiliwyd: Chris Franks) a chymeradwywyd yn unfrydol.</p>
9.	<p><b>Cynigion i'w trafod</b></p> <p>Roedd chwe chynnig i'w trafod i gyd, pob un wedi ei gyflwyno yn gryno gan y cynigydd. Roedd system bleidleisio drwy ddirprwy mewn gweithrediad ar gyfer y rhain, yn ogystal â phleidlais aelodau o'r Llawr: derbyniwyd 28 pleidlais drwy ddirprwy gan y Clerc o flaen llaw, ac fe'u hychwanegwyd at y pleidleisiau a gyfrifwyd yn yr ystafell.</p> <p><b><u>Cynnig 1</u></b></p> <p><i>O ystyried bod WEA Cymru yn unigryw fel yr unig ddarparwr Cymru gyfan o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, a wnaeth drwy ei ffurfio uno arbenigedd tri o ddarparwyr dysgu oedolion yn y gymuned hynaf Cymru, dylai WEA Cymru hyrwyddo ei hun fel Y Darparwr Cymru Gyfan mewn Dysgu Oedolion yn y gymuned a'r gweithle gan barhau'n weithredol i nodi cyfleoedd i agor trafodaethau gyda sefydliadau Cymru Gyfan sy'n cynrychioli'r trydydd sector, llywodraeth leol, datblygu menter gymdeithasol a'u tebyg i sefydlu partneriaethau ar gyfer darpariaeth.</i></p> <p>Cynigiwyd: Sonia Reynolds; eiliwyd: Lynne Hayes.</p>

Dymunai Sonia Reynolds bwysleisio y dylai'r sefydliad ddangos hunan hyder fel partner o ddewis, ac felly hyrwyddo ei hun yn effeithiol.

**Derbyniwyd y cynnig fel a ganlyn:**      **O blaid: 61**  
   **Yn erbyn: 1**  
   **Ymataliadau: 0**

### Cynnig 2

*Mae'r CCB yn croesawu sefydlu Fforymau Rhanbarthol ac yn cydnabod y rôl y gallant eu cyflawni yn strwythur ddemocrataidd, dan arweiniad dysgwyr, WEA Cymru. Er mwyn datblygu rôl y Fforymau, rydym yn galw ar yr Uwch Dîm Rheoli a Chyngor WEA Cymru i sicrhau yr ymgynghorir gyda'r Fforymau Rhanbarthol fel rhan o'r broses gwneud penderfyniadau, cyn belled â bo hynny'n ymarferol, ac yn unol gyda'r Erthyglau Cymdeithasu, a bod Fforymau Rhanbarthol yn cael eu trefnu tu fewn i gylch cynllunio WEA Cymru.*

Cynigiwyd: Derek Edwards; eiliwyd: Cangen Gwaith Coed i Bawb.

**Derbyniwyd y cynnig fel a ganlyn:**      **O blaid: 61**  
   **Yn erbyn: 1**  
   **Ymataliadau: 0**

### Cynnig 3

*Dymunwn gadarnhau nod WEA Cymru o fod yn brif ddarparwr ar gyfer addysg i oedolion yng Nghymru, gan sicrhau darpariaeth eang, gytbwys a pherthnasol ar draws Cymru. Golyga hynny cynyddu yn sylweddol y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, a llunio strategaeth a chynllun gweithredu penodol er mwyn cyrraedd y nod yma. / We wish to confirm WEA Cymru's goal of being the main provider of adult education in Wales, by ensuring broad, balanced and relevant educational provision throughout Wales. This means significantly increasing its Welsh medium provision, and the drawing up of a strategy and specific action plan in order to achieve this goal.*

Cynigiwyd: Toni Schiavone; eiliwyd: Rhys Roberts.

Gwelwyd tyfiant mewn cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn addysg uwch, ac mae'r cyfle yn bodoli nawr i WEA Cymru gyflawni yr un fath mewn addysg bellach, gan ymestyn ei gyrhaeddiad o ganlyniad.

**Derbyniwyd y cynnig fel a ganlyn:**      **O blaid: 55**  
   **Yn erbyn: 2**  
   **Ymataliadau: 7**

### Cynnig 4

*Gofynna'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol hwn i WEA Cymru gynnal adolygiad o'r ymchwil presennol i arbed costau a wnaed mewn cyllidebau llywodraethol eraill drwy bod dysgwyr yn mynychu dosbarthiadau Dysgu Oedolion yn y Gymuned*

Cynigiwyd: Graham Price; eiliwyd: Alynne McMahon.

Er ceir llawer o lenyddiaeth oedd yn dangos effeithiau therapiwtig addysg i

	<p>oedolion at iechyd a lles, roedd dangos buddiannau economaidd pendant yn fwy anodd. Roedd angen tystiolaethi i brofi'r effaith ar bwrs y wlad, gyda'r nod o newid telerau'r ddadl ar y mater.</p> <p><b>Derbyniwyd y cynnig yn unfrydol:</b>                      <b>O blaid: 65</b>  <b>Yn erbyn: 0</b>  <b>Ymataliad: 0</b></p> <p><b><u>Cynnig 5</u></b>  <i>Mae'r CCB hwn yn rhoi cyfarwyddyd i'r Cyngor i ymchwilio i sefydlu cronfa fwrsariaeth fel mater o frys er mwyn sicrhau bod pawb sydd eisiau dysgu gyda WEA Cymru yn cael eu galluogi i wneud hynny.</i>  Cynigiwyd: Ceinwen Statter; eiliwyd: Huw Williams.</p> <p>Roedd y cais i'r Cyngor ystyried p'un ai y gellid defnyddio rhai o'i gwaddolion i sefydlu cronfa cymharol fach ar gyfer dysgwyr o fodd cyfyngedig neilltuol, gan gymryd bwrsariaeth WEA Lloegr a'r Alban fel enghraifft o bosib. Atgoffodd Huw Williams, fel y cynigydd, yr aelodau o gyfres deledu gyfredol am Ferthyr Tudful sef '<i>Skin</i>'.</p> <p><b>Derbyniwyd y cynnig fel a ganlyn:</b>                      <b>O blaid: 54</b>  <b>Yn erbyn: 5</b>  <b>Ymataliadau: 8</b></p> <p><b><u>Cynnig 6</u></b>  <i>Hoffai'r CCB hwn longyfarch yr holl staff ar ganlyniad Adolygiad Perfformiad Blynyddol Estyn Tachwedd 2014, ac yn enwedig yr adborth cadarnhaol ar y cynnydd a wnaed gan WEA Cymru ers yr uniad a adlewyrchir ynddo.</i>  Cynigiwyd gan: Cyngor WEA Cymru; eiliwyd: Christine Cockroft.</p> <p>Nododd Gerry Jenson fel yr Is-gadeirydd na fyddai unrhyw sefydliad yn ymhyfrydu mewn arolwg 9 mis ar ôl uniad, ond roedd ymweliad Estyn wedi bod yn gadarnhaol ymhob agwedd, gan ddangos y cynnydd ôl-uniad a gyflawnwyd ac a oedd yn cyfiawnhau'r dymuniad i longyfarch y staff.</p> <p><b>Derbyniwyd y cynnig fel a ganlyn:</b>                      <b>O blaid: 57</b>  <b>Yn erbyn: 0</b>  <b>Ymataliadau: 10</b></p>
10.	<p><b>Penderfyniad – uniad arfaethedig WEA Cymru gyda Choleg Cymunedol YMCA Cymru</b></p> <p>Cyflwynodd y Cadeirydd yr eitem yma fel yr un pwysicaf ar yr agenda. Rhoddodd Maggi Dawson gyflwyniad, seiliedig ar y wybodaeth helaeth a gynhwyswyd ym mhecyn pawb a fynychodd, gan danlinellu cyfatebolrwydd darpariaeth addysgol y ddau sefydliad, gan esbonio ystyr uniad 'Math B', a gan fynegi goblygiadau tebygol yr uniad ar lywodraethiant.</p> <p><i>Er mwyn gwella darpariaeth dysgu oedolion yn y gymuned a'r gweithle yng Nghymru, mae'r CCB hwn yn penderfynu y dylid uno Coleg Cymunedol</i></p>

	<p><i>YMCA Cymru a WEA Cymru, gyda diddymu Coleg Cymunedol YMCA Cymru a throsglwyddo ei asedau i WEA Cymru. Ategir yr uniad hwn gan egwyddor parch cydradd. Datblygir addasiadau i'r model rheolaeth yn y sefydliad ôl-uniad, gan ymgorffori egwyddorion democrataidd WEA Cymru a chynnwys ymgynghoriaeth drylwyr gyda'i aelodau a sefydliadau eraill, a'u cynnig gerbron i'w mabwysiadu o fewn 12 mis</i></p> <p>Cynigiwyd gan: Cyngor WEA Cymru; eiliwyd: Sonia Reynolds.</p> <p>Siaradodd Christine Cockroft o blaid y penderfyniad, o wybod am safon uchel darpariaeth addysgol YMCA yng Nghymru a Lloegr, Roedd Jeremy Gass hefyd o blaid, er ei fod yn parhau'n bryderus ynghylch parhad enw WEA ar ôl yr uniad ac agweddau o'r cynigion llywodraethu – er bod cyfeiriadau at yr egwyddorion democrataidd yn y Penderfyniad wedi tawelu rhywfaint ar ei feddwl.</p> <p><b>O gynnwys y 28 pleidlais drwy ddirprwyaeth a fwriwyd gan aelodau cyn y cyfarfod, derbyniwyd y Penderfyniad fel a ganlyn:</b></p> <p style="text-align: right;"><b>O blaid: 63 Yn erbyn: 2 Ymataliadau: 0</b></p>
11.	<p><b>Cynrychiolwyr WEA Cymru ar Lysoedd prifysgolion yng Nghymru</b></p> <p>Yn dilyn proses enwebu agored, daeth un enw yr un gerbron ar gyfer y seddau unigol a oedd ar gael yn y 4 brifysgol berthnasol yng Nghymru. Cymeradwywyd y penodiadau diwrthwynebiad yn unfrydol, fel a ganlyn:</p> <p>Aberystwyth – Moelwen Gwyndaf Bangor – David Elis-Williams Caerdydd – Elaine Gwynne Abertawe – Steve David</p>
12.	<p><b>Sylwadau i Gloi</b></p> <p>Diolchodd Rob Humphreys i bawb am eu presenoldeb, ac yn arbennig i'r aelodau staff yng Ngholeg Harlech am gynnal y digwyddiad, gan gynnwys teithiau o'r safle a'r digwyddiad ar y cyd gyda Chyngor Cymunedol Harlech y bore hwnnw. Dymunodd yn dda i Maggi Dawson yn benodol yn ei Chyfarfod Cyffredinol Blyneddol olaf fel Prif Swyddog Gweithredol y sefydliad, gan ganmol ei hegri, ymrwymiad a'i rhinweddau arweiniol.</p>